Dangos Tystiolaeth o Wneud Penderfyniadau Anodd

Prif bwrpas:

- Nodi cyd-destun
- Asesu risg
- Datblygu strategaeth
- Cynorthwyo i wneud a chyfiawnhau penderfyniad
- Ystyried adolygiadau
- Darparu trywydd archwilio
- Osgoi cwynion a chamau cyfreithiol dilynol

Awgrymiadau:

- Dechreuwch efo cwestiwn clir h.y. beth yw'r penderfyniad neu'r hepgoriad?
- Nodwch y dewisiadau realistig
- Nodwch y penderfyniad
- A oes modd gohirio'r penderfyniad? Os nac oes, gwnewch y penderfyniad

Pethau pwysig i'w cofnodi:

- Y penderfyniad, y dyddiad a'r amser
- Yr holl ffeithiau a'r dystiolaeth berthnasol i gefnogi'r penderfyniad
- Yr holl ddewisiadau a ystyriwyd
- Y rhesymeg a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad

Fe ddylech chi ysgrifennu'ch nodiadau ar y pryd neu cyn gynted â bo'n ymarferol ar ôl y digwyddiad, pan fo popeth yn dal yn ffres yn eich meddwl.

Mae modd i rywun ysgrifennu'r nodiadau ar eich rhan ond mae'n rhaid i chi eu gwirio cyn i chi eu cadarnhau fel eich nodiadau chi. Fe allwch chi ychwanegu atynt yn ddiweddarach, cyhyd â'ch bod yn gwneud hyn yn glir ac yn nodi pam.